GWEDDÏAU A GLYWIR GAN DDUW

Nodyn i'r siaradwr:

Argyhoeddwch y gynulleidfa fod y gwir Dduw yn gwrando ar weddïau sy'n unol â gofynion y Beibl ac yn gweithredu arnynt. Defnyddiwch enghreifftiau o'r Beibl i ddangos sut mae Jehofah yn ateb gweddiau. Gallwch hefyd ymgynghori â *Mynegeion* y Gymdeithas o dan "PRAYER" (gweddi) i gael profiadau o'n hoes ni sy'n dangos sut mae Duw yn ateb gweddiau

MAE POBL POB CREFYDD YN GWEDDÏO (3 mun.)

Eto ni atebir llawer o weddiau

'Dyw gweddiau am heddwch y byd ddim yn cael eu hateb (*w*92 3/1 6)

Yn amser rhyfel, mae'r ddwy ochr yn gweddio; un ochr sy'n "ennill"

Mae'r un peth yn wir am gystadleuwyr chwaraeon sy'n gweddio (*g*94 2/8 31)

"'Does 'na ddim anghredinwyr yn y ffeuau llwynogod [h.y.: mae pob milwr yn gweddio ar faes y gad]," eto lleddir llawer o filwyr (*g*66 7/8 5)

Ond mae Duw yn gwrando rhai sy'n ceisio'r gwirionedd yn ddidwyll (1Bren 8:41-43; Act 10:31)

MAE ANGEN CYFEIRIO GWEDDÏAU AT Y GWIR DDUW, DRWY GRIST, GYDA'R CYMHELLIAD CYWIR (10 mun.)

Jehofah yw'r gwir Dduw; rhaid inni alw ar ei enw (Act 2:21)

Pob duw arall yn ofer, yn ddi-rym (Salmau 115:4-8)

Mae gweddio arnynt yn ofer (1Bren 18:26-29)

Rhaid gweddio trwy Iesu Grist (In 14:6; 16:23)

Rhaid bod yn ceisio Duw o ddifrif (Heb 11:6)

Mae'n hanfodol caru cyfiawnder (Diar 15:29; cymharer Eseia 1:15)

Mae gofyn cael gostyngeiddrwydd (Salmau 138:6)

Rhaid dyfalbarhau (Lc 18:1-8)

'Dyw hi ddim yn dderbyniol adrodd ar y cof a defnyddio'r un geiriau drosodd a throsodd

RHAID GWEDDÏO AM Y PETHAU IAWN A BOD YN BENODOL (15 mun.)

Am i gyfiawnder fod yn fuddugol yn erbyn gelynion Duw (Salmau 83:1, 2, 16-18)

Am sancteiddio enw Jehofah (Mth 6:9)

Am i'r Deyrnas ddod, ac am i ewyllys Duw gael ei gweithredu ar y ddaear (Mth 6:10)

Am ffyniant gwaith y Deyrnas (Mth 9:38; 2Thes 3:1)

Dros y brodyr: Y rhai sy'n arwain; y rhai sy'n cael eu herlid, y rhai sy'n wael, yr oedrannus (Salmau 41:1-3; Act 12:5)

Gofalon personol

Am faddeuant wedi inni syrthio'n fyr (Mth 6:12)

Am ddoethineb wrth ymdrin â phroblem arbennig (Iago 1:5-7)

Am help i oresgyn pechod neu wendid arbennig (Iago 5:14, 15)

Am y fraint o gael cynnal astudiaeth Feiblaidd

Am ofalon materol: Iechyd, gwaith, ac yn y blaen

Rhaid bod yn unol ag ewyllys Duw (Mth 26:39; 1In 5:14)

ER MWYN DANGOS DIFFUANTRWYDD, CYSONDEB, RHAID GWEITHREDU YN UNOL Â'R HYN Y GWEDDÎWN AMDANO (10 mun.)

Esiampl Jacob pan wynebwyd ef â chyfarfod Esau (Gen 32:9-21)

Esiampl Dafydd pan wrthryfelodd Absalom (2Sam 15:31-34; 17:8-14)

'Dyw hi ddim yn ddigon i ddim ond gweddio am y fraint o gynnal astudiaeth Feiblaidd

Byddwch yn frwdfrydig yn y gwaith o ddrws i ddrws a galw'n ôl

Byddwch yn ymwybodol o'r angen i wella'ch effeithiolrwydd

Plannwch a dyfrhewch er mwyn i Dduw roi tyfiant (1Cor 3:5-7)

Y DULLIAU A DDEFNYDDIA DUW I ATEB GWEDDÏAU (5 mun.)

Ei Air a'i rym gweithredol (Salmau 119:105; Sech 4:6)

Cyfarwyddyd a chymorth yr angylion (Salmau 34:7)

Asiantau dynol: y Gymdeithas, henuriaid, ein brodyr

Weithiau, efallai mai Na fydd ei ateb (2Cor 12:8, 9)

MAE GWEDDÏAU FFYDD YN SICR O SYLW DWYFOL (2 fun.)

Mae'r Beibl yn datgelu fod Jehofah yn Wrandawr gweddi (Salmau 65:2)

Felly mae Duw yn llawen o fedru darparu cyfathrebu trwy Grist

Mae'n sicrhau deisyfwyr, bydd gweddiau yn cael eu priodol ystyried er mwyn y budd gorau (Iago 1:5)

(Sylwer: Ceir cyfeiriadau digonol ym *Mynegeion* y Gymdeithas, megis *w*92 4/15 3-6; *w*91 9/15 3-8; *w*88 3/15 4-7, i gadarnhau'r uchod; defnyddiwch yr ysgrythurau uchod fel y bydd amser yn caniatau)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)